Oriel Myrddin Gallery

# Forest + Found: Cerdded y Lein // Walking the Line

## Rhaglen Ddigwyddiadau

**Dydd Sadwrn 18 Mai 2019 11am**
**Digwyddiad agoriad**
**Forest + Found: Cerdded y Lein**
Ymunwch â ni am goffi a theisennau bore Sadwrn gyda'r artistiaid Max Bainbridge ac Abigail Booth (Forest + Found) i agor ein harddangosfa newydd: Forest + Found: Cerdded y Lein
**Digwyddiad am ddim, croeso i bawb.**

**Dydd Mawrth 28 Mai 2019 11am – 3pm**
**Gweithdy Hanner Tymor Teulu**
**Inciau, Printiau a Llifynnau Botanegol gyda Siân Lester**
Ymunwch â ni am ddiwrnod cyffrous yn archwilio inciau a llifynnau naturiol.
**£15 y person, tocyn teulu (4 person) £45**
**8+ oed , rhaid archebu lle ymlaen llaw, archebwch eich lle drwy Eventbrite**

**Dydd Sadwrn 8 Mehefin 2019 11am – 1pm**
**Taith Gerdded a Braslunio gyda'r artist Sarah Poland**
Cerddwch ac arluniwch yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin gan gael eich ysbrydoli gan yr arddangosfeydd a'r tiroedd coediog hardd.
**Digwyddiad am ddim, addas i bobl o bob oed a gallu.**

**Dydd Sadwrn 22 Mehefin 2019 11am**
**Sgwrs yn yr Oriel**
**Hedging, fencing and the odd brick wall:** Observations on making **gyda Ceri Jones**
Sgwrs gan Ceri Jones am ganfyddiadau o grefft yn y gorffennol a'r presennol. Gan gyfeirio at rai o'i phrosiectau curadu diweddar, bydd Ceri yn archwilio'r gwahanol werthoedd a briodolir i gelfyddyd gwneud ym myd celfyddyd gain a chelf.
**£3 y person rhodd awgrymedig**
**Yn cynnwys coffi a chacen, nid oes angen archebu lle.**

**Dydd Sadwrn 29 Mehefin 2019 2pm – 6pm**
**Cyfres Gweithdai Cyflenwi eich Cegin**
**Cerfio Llwyau gyda Lee John Philips**
Dysgwch sut i gerfio llwy syml gyda'r artist a'r gwneuthurwr Lee John Phillips, fel rhan o gyfres o weithdai Oriel Myrddin mewn *Cyflenwi eich Cegin*.
**16+ oed. £35 y person, rhaid archebu lle ymlaen llaw, archebwch eich lle drwy Eventbrite.**

Actif | Active
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Oriel Myrddin Gallery

# Forest + Found: Cerdded y Lein // Walking the Line

**Dydd Iau 4 Gorffennaf 2019 6 – 7:30pm**
**Clwb Llyfrau Oriel Myrddin**
***Spring* gan Ali Smith**
I gyd-fynd â'n harddangosfa, Forest + Found: Walking the Line, yn Oriel Myrddin, rydym yn falch bod yr artistiaid Max Bainbridge ac Abigail Booth wedi dewis llyfr yn arbennig ar gyfer ein Clwb Llyfrau.Ymunwch â ni am drafodaeth gyfeillgar a arweinir gan Kirsten Hinks Knight.
**Mynediad am ddim, nid oes angen archebu lle, darperir te a chacen.**

**Dydd Sadwrn 6 Gorffennaf 2019 11 am – 4 pm**
**Dosbart Meistr**
**Cwiltio â Llaw gydag Abigail Booth**
Ymunwch â'r artist Abigail Booth o'r stiwdio Forest + Found a dysgwch y grefft hardd o gwiltio gan bwytho â llaw. Dysgwch y sgiliau sydd eu hangen i greu a gorffennu eich cwilt eich hun â llaw. Darperir deunyddiau. Te a chacennau ar gael (dewch â'ch cinio eich hun).
**16+ oed, rhaid archebu lle ymlaen llaw, archebwch eich lle drwy Eventbrite Dewch â ffrind a manteisiwch ar ein cynnig arbennig – archebwch ddau docyn a gallwch arbed £20**
**Pris llawn: £45 yr un**
**Cynnig 'dod â ffrind': £70 am ddau docyn**

**18 Mai – 6 Gorffennaf 2018**
**Gwneuthurwyr Dan Sylw: Rural Kind**
Ein Gwneuthurwyr Dan Sylw yn ystod Mai - Gorffennaf yw'r cwmni Rural Kind sy'n dod o Sir Gar, dylunwyr a gwneuthurwyr nwyddau cario syml, defnyddiol a garw.

**18 Mai – 6 Gorffennaf 2018**
**Cyfres Y Rhes Gefn: Catherine Lewis**
Catherine Lewis yw'r diweddaraf i fod yn rhan o Cyfres Y Rhes Gefn yn Oriel Myrddin sy'n rhoi sylw i artistiaid Cymreig yn y siop oriel. Gan ddefnyddio sgiliau traddodiadol mae hi'n gweithio gyda planhegion ac agwrthrychau hapgael i gwneud i wneud ei inciau naturiol, gwaith celf a tecstiliau ei hun.

**25 Mai – 23 Mehefin 2019**
**Coed Hynaf**
**Yn Y Warren bwyty, bar a chaffi, 11 Mansel St, Caerfyrddin, SA311PX**
**Oriau agor: Maw: 9am - 4pm , Merch: 9am - 4pm , Iau: 9am - 10pm, Gwe: 9am - 10pm, Sad: 9am - 10pm , Sul: 9am - 4pm**
Arddangosfa o ffotograffau gan Heather Birnie o brosiect Coed Hynaf Oriel Myrddin gyda thenantiaid o gynllun gofal ychwanegol Cartref Cynnes, Caerfyrddin. Wedi'u hariannu gan Wyl Gwanwyn Age Cymru.

Actif | Active
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru